



## Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR)

### Cyflwyniad

Lansiwyd cynllun Hawl Dioddefwyr i Adolygiad (VRR) ar 5 Mehefin 2013. Mae'r Cynllun VRR yn rhoi'r hawl i **ddioddefwyr** wneud cais am adolygiad o benderfyniad Gwasanaeth Erllyn y Goron (CPS) i beidio ag erlyn neu i derfynu achosion troseddol.

Mae'r daflen hon yn amlinellu pa bryd y bydd yr hawl i adolygu'n digwydd, y broses ar gyfer gwneud cais am adolygiad a chanlyniadau posib yr adolygiad hwnnw.

### Pa benderfyniadau sy'n atebol i'r cynllun?

Mae'r hawl i ofyn am adolygiad yn codi lle mae'r CPS:

- (i) yn gwneud y penderfyniad i beidio â dwyn achos; neu
- (ii) yn penderfynu rhoi'r gorau neu dynnu'r holl gyhuddiadau sy'n ymwneud â'r dioddefwr yn ôl; neu
- (iii) ddim yn cynnig unrhyw dystiolaeth yn yr holl achosion sy'n ymwneud â'r dioddefwr; neu
- (iv) yn penderfynu gadael yr holl gyhuddiadau yn yr achos i'w "cadw ar ffeil".<sup>1</sup>

### Gelwir y rhain yn 'benderfyniadau cymwys'.

Mae'r cynllun VRR yn weithredol ym mhob achos lle gwnaed y penderfyniad cymwys ar neu ar ôl **5 Mehefin 2013**.

### Pwy all wneud cais o dan y cynllun?

Mae gan unrhyw **ddioddefwr** mewn achos lle gwnaed penderfyniad cymwys hawl i ofyn am adolygiad o'r penderfyniad hwnnw dan y cynllun.

Diffinnir dioddefwr fel a ganlyn:

*'person sydd wedi dioddef niwed, gan gynnwys niwed corfforol, meddyliol neu emosiynol neu golled economaidd a achoswyd yn uniongyrchol gan ymddygiad troseddol'.*

Mae hyn yn cynnwys:

- *perthnasau agos person y mae ei farwolaeth wedi ei hachosi'n uniongyrchol gan ymddygiad troseddol;*

---

<sup>1</sup>Dyma'r term a ddefnyddir mewn amgylchiadau lle mae'r CPS yn gwneud penderfyniad i beidio â symud ymlaen ac yn gofyn am ganiatâd i'r cyhuddiadau gael "eu cadw ar ffeil", a'u marcio 'dim parhad heb ganiatâd y Llys hwn neu'r Llys Apêl'.

- *rhieni neu warcheidwaid lle mae'r prif ddiodefwyr yn blentyn neu'n berson ifanc dan 18 oed;*
- *swyddogion yr heddlu sy'n ddiodefwyr trosedd;*
- *llefarwyr teulu diodefwyr sydd ag anabledd neu sydd wedi eu hanafu mor ddrwg fel nad ydynt yn gallu cyfathrebu; a*
- *busnesau, ar yr amod eu bod yn rhoi cyswllt a enwir.*

### **Sut all diodefwyr arfer yr hawl dan y cynllun?**

Bydd diodefwyr yn cael gwybod am benderfyniad yr erlyniad i beidio â dwyn achos / terfynu achos.

Unwaith y bydd wedi cael gwybod am y penderfyniad cymwys, yr unig gam y mae angen i ddiodefwyr ei gymryd yw hysbysu'r CPS o'i gais am adolygiad. Rhoddir manylion cyswllt swyddfa CPS leol y diodefwyr gyda'r hysbysiad am y penderfyniad. Nid oes angen i'r diodefwyr egluro pam y gwneir y cais.

Dylid cyflwyno cais am adolygiad fel arfer o fewn pum diwrnod gwaith o dderbyn yr hysbysiad am y penderfyniad. Fodd bynnag, gall cais gael ei wneud hyd at dri mis ar ôl hysbysu'r diodefwyr o'r penderfyniad.

Mae cais cynnar gan y diodefwyr yn galluogi adolygiad prydlon, ac i achos gael ei (ail) gychwyn cyn gynted ag y bo modd, os yw hynny'n briodol. Ar y llaw arall, efallai y bydd oedi cais yn cynyddu'r tebygolrwydd y caiff y Llys anhawster gydag unrhyw benderfyniad i (ail) gychwyn achos yn dilyn yr adolygiad. Mewn rhai amgylchiadau, ni fydd yn bosibl (ail) gychwyn achos os oes oedi gyda chais am adolygiad.

### **Beth mae'r CPS yn ei wneud â chais am adolygiad?**

Byddwn yn trefnu adolygiad o'r achos ar unwaith i benderfynu a ellir datrys y mater yn gyflym. Gelwir hyn yn "Ddatrysiaid Lleol" gan roi cyfle i'r Ardal CPS cyfrifol wirio'r penderfyniad a sicrhau bod y diodefwyr wedi cael eglurhad digon clir a manwl ynglŷn â'r penderfyniad. Er y cwblheir yr adolygiad hwn yn lleol, caiff ei gynnal gan erlynydd na chafodd unrhyw gyswllt blaenorol â'r achos.

Os na lwyddwn i ddatrys y mater yn lleol gan fodloni'r diodefwyr yna byddwn yn cynnal adolygiad annibynnol. Yn ddibynnol ar natur y penderfyniad cymwys, cynhelir yr adolygiad gan yr Uned Apeliadau ac Adolygu neu Uwch Erlynydd y Goron.

Bydd yr erlynwyr a fydd yn adolygu yn dod at yr achos o'r newydd i bennu a oedd y penderfyniad gwreiddiol yn gywir neu'n anghywir.

### **Beth fydd canlyniad yr adolygiad?**

Mae'r datrysiaid sydd ar gael yn dibynnu ar natur y penderfyniad cymwys.

Mewn achosion pan fo'r penderfyniad cymwys yn un i 'beidio â chyhuddo' neu 'roi'r gorau/dynnu'n ôl' o'r achos, yna gall fod yn bosibl dwyn camau cyfreithiol os gwelir, ar ôl yr adolygiad, bod y penderfyniad gwreiddiol yn anghywir.

Mewn achosion lle gwnaed penderfyniad cymwys i 'gynnig dim tystiolaeth' nid yw'n bosibl ailgychwyn yr achos troseddol; felly cyfyngir yr unioni mewn amgylchiadau o'r fath i eglurhad ac ymddiheuriad.

Hysbysir y dioddefwr o ganlyniad yr arolwg a chael eglurhad llawn o'r rheswm am y penderfyniad.

### **Beth sy'n digwydd os nad yw'r dioddefwr yn cytuno â'r canlyniad?**

Yn dilyn terfynu'r broses VRR, nid oes lle i unrhyw adolygiad pellach gan y CPS ac felly, os yw'r dioddefwr yn parhau i fod yn anfodlon â'r penderfyniad, ac/neu yn dymuno ei herio ymhellach, yna dylai'r dioddefwr wneud cais i'r Uchel Lys am adolygiad barnwrol.

### **Beth sy'n digwydd os oes gan rywun bryder am benderfyniad gan y CPS ond nid yw'r cynllun VRR yn berthnasol?**

Bydd penderfyniadau cyfreithiol nad ydynt yn rhan o waith y cynllun VRR a chwynion gwasanaeth<sup>2</sup> yn cael eu trin gan y swyddfa CPS leol yn unol â'r polisi Adborth a Chwynion. Mae'r polisi ar gael ar wefan y CPS. Mae terfyn amser o chwe mis ar gyfer cyflwyno cwyn dan y polisi ym mhob achos heblaw'r amgylchiadau mwyaf eithriadol

### **Sut alla i gael rhagor o wybodaeth am y cynllun VRR?**

Mae rhagor o wybodaeth am y cynllun VRR ar gael ar [wefan y CPS](#).

### **Cysylltiadau defnyddiol:**

1) Swyddfa CPS Leol

2) Asiantaethau Cymorth Lleol

---

Mae cwynion <sup>2</sup>Gwasanaethau yn gwynion sy'n ymwneud â'r ffordd y mae'r CPS wedi ymddwyn.